# Gwybodaeth am Ddiogelwch ar gyfer Grwpiau Addysg

## Canolfan Addysg Amgylcheddol Alwen


Bethan Copeland
Cydgysylltydd Addysg


Medi 2010


Dŵr Cymru
Welsh Water

| | |
|---|---|
| **Datganiad Diogelwch** | Mae Dŵr Cymru yn llwyr dderbyn ei gyfrifoldebau o dan Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae gennym Bolisi Iechyd a Diogelwch ac rydym yn paratoi asesiadau risg ysgrifenedig er mwyn cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â phobl ac eithrio'r gweithwyr (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'r safle hwn ac yn defnyddio ein cyfleusterau. Gallwn eich sicrhau ein bod yn rhoi pwyslais mawr ar ofalu am eich iechyd a'ch diogelwch tra byddwch yng Nghanolfan Addysg Amgylcheddol Alwen ac rydym am sicrhau bod eich ymweliad yn hwyl, yn braf ac yn brofiad gwerthfawr o ddysgu.<br>Rydym yn rhoi'r manylion a ganlyn i grwpiau addysgol. Byddant yn eich helpu i gynnal eich asesiad risg eich hunan ar gyfer eich ymweliad addysgol. |
| **Y Cefndir** | |
| **Profiad** | Agorwyd Canolfan Addysg Amgylcheddol Alwen yn 2003. Mae'r ganolfan ger argae a chronfa ddŵr Alwen. Mae'r argae'n 27 metr o uchder ac mae'r gronfa'n 5km o hyd. Ar y safle, mae canolfan arddangos hanesyddol sy'n rhoi cyfle i'r plant astudio sut y cafodd yr argae a'r gronfa eu gwneud. Gellir ymweld â Gwaith Trin Dŵr Glân Alwen hefyd. |
| **Rhaglenni Addysgol** | Mae nifer o raglenni addysgol ar gael i ysgolion sy'n ymweld â ni, yn dibynnu ar faint y grŵp ac oedran y plant. Gallwch drafod y manylion gyda'r Cydgysylltydd Addysg. |
| **Nifer yr Ymwelwyr** | Bob blwyddyn, mae tua 2500 o blant yn dod i Ganolfan Addysg Amgylcheddol Alwen. |
| **Addasrwydd** | Cyfrifir bod Canolfan Addysg Amgylcheddol Alwen yn addas ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a'r blynyddoedd pontio (6 – 12 oed). Ni chaniateir plant o dan 6 oed ar y safle. |
| **Trefnu Ymweliad** | Gallwch gysylltu â'r Cydgysylltydd Addysg i drefnu dyddiadau a gweithgareddau posibl ac, efallai, i drefnu i chi ymweld ymlaen llaw os bydd angen.<br>Rhif Ffôn: 01490 420208 neu E-bost: bethan.copeland@dwrcymru.com<br>Holwch os hoffech weld rhestr o ysgolion sydd eisoes wedi ymweld â ni. |
| **Wrth Gyrraedd** | Bydd y Cydgysylltydd Addysg yn cwrdd â'r grŵp yn y prif faes parcio. Gofynnwn i chi gadw'r plant ar y bws tan i'r Cydgysylltydd Addysg gyrraedd. Os credwch y byddwch yn hwyr yn cyrraedd, hoffem i chi ffonio'r ganolfan ar 01490 420208 |
| **Ar ôl yr Ymweliad** | Os bydd gennych ryw bryder ar ôl eich ymweliad neu os cewch ryw broblemau ynghylch y ffordd y caiff y Ganolfan Addysg ei rheoli neu iechyd a diogelwch aelodau'ch grŵp, byddem yn falch o'u trafod gyda chi. Ffoniwch: 01443 492720 neu E-bostio: livingandlearningwithwater@dwrcymru.com |

| Gwybodaeth Gyffredinol | |
|---|---|
| **Cyfrifoldeb dros Ymddygiad** | Mae'n rhaid i arweinwyr partïon ysgol beidio â gadael eu grŵp heb neb i'w goruchwylio. Mae'r staff sy'n gofalu am bartïon addysgol yn llwyr gyfrifol am ymddygiad holl aelodau eu parti, yn cynnwys oedolion sy'n helpu, tra byddant yng Nghanolfan Addysg Amgylcheddol Alwen. Cyfrifoldeb staff y grŵp sy'n ymweld yw iechyd a diogelwch a lles cyffredinol y grŵp.<br>Ni chaniateir i'r grwpiau:<br>• Fynd i fannau nad ydynt yn agored i'r cyhoedd<br>• Ymddwyn yn afreolus<br>• Cyffwrdd â pheiriannau na dringo arnynt<br>• Anwybyddu cyfarwyddiadau/gwybodaeth am ddiogelwch a roddir gan staff y safle<br>Mae gan ein Cydgysylltydd Addysg hawl i wrthod cynnal gweithgareddau os bydd o'r farn bod ymddygiad grŵp yn peryglu iechyd a diogelwch. |
| **Staff: Nifer y Staff i bob Disgybl a Maint y Grwpiau** | Rhaid i bob grŵp ddod â digon o oedolion i oruchwylio'r disgyblion. Rydym yn gofyn am 1 oedolyn i bob 8 plentyn. Cyn cyrraedd y safle, dylid rhannu'r dosbarth yn bedwar grŵp gydag oedolyn yn gofalu am bob grŵp. Dim ond lle i 35 sydd mewn ystafell ddosbarth. Os yw'ch grŵp yn fwy na hynny, gallwch drafod y mater gyda'r Cydgysylltydd Addysg wrth drefnu'ch ymweliad.<br>Os oes unrhyw ddisgybl yn cael cymorth 1:1 am unrhyw ran o'r diwrnod ysgol, mae'n rhaid i'r aelod o'r staff sy'n ei helpu ddod ar yr ymweliad â'n safle ni. Os nad oes modd gwneud hyn, ni allwn ganiatáu iddynt ymweld â ni am resymau iechyd a diogelwch. |
| **Yswiriant (Atebolrwydd Cyhoeddus - Atebolrwydd Cyflogwr)** | Mae gennym yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £5 miliwn o leiaf. Holwch os hoffech weld manylion ein hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd y Cyflogwr cyn i chi ymweld â ni. |
| **Hanes Troseddol** | Cymerir pob cam rhesymol i sichrau bod pob aelod o staff sy'n gweithio gyda grwpiau addysgol wedi cael gwiriad hanes troseddol ac mae gan y staff hynny ddatgeliad uwch y Swyddfa Cofnodion Troseddol. |
| **Cymorth Cyntaf** | Mae gan ein Cydgysylltydd Addysg becyn Cymorth Cyntaf safonol sydd ar gael i'w ddefnyddio gan grwpiau sy'n ymweld. Sylwch: y staff â gofal am barti o ymwelwyr sy'n gyfrifol am roi cymorth cyntaf ac ni fydd grŵp yn cael dod ar y safle heb rywun sydd â chymwysterau cymorth cyntaf addas. Mae gwregysau achub i'w gweld yn glir wrth y pwll. Mae pecyn cymorth cyntaf i'w gael yn y Ganolfan hefyd.<br>Cyfrifoldeb staff y grŵp sy'n ymweld yw sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth benodol y mae ar ddisgybl ei hangen ar gael yn ôl y gofyn. Os bydd angen, dylid dweud wrth y Cydgysylltydd Addysg am unrhyw gyflwr felly wrth drefnu'r ymweliad. |

| | |
|---|---|
| **Ymweld ymlaen llaw** | Gall aelod o staff sy'n gofalu am drefniant pendant ddod yma ymlaen llaw i gynnal asesiadau risg ac i weld y gweithgareddau neu'r offer. Dylid trefnu hyn gyda'r Cydgysylltydd Addysg ar amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr. |
| **Gadael mewn Argyfwng** | Mae trefniadau gennym ar gyfer gadael mewn argyfwng. Mae'r holl staff yn gyfarwydd â'r rhain a byddant yn dangos i'r ymwelwyr sut i adael y safle'n ddiogel.<br>Os bydd y larwm tân yn canu, rhaid i'r ymwelwyr fynd i'r Man Ymgynnull gyferbyn â'r ganolfan. Mae'n rhaid i'r ysgol sy'n ymweld roi rhestr o aelodau'r dosbarth i'r Cydgysylltydd Addysg wrth gyrraedd rhag ofn y bydd angen ymadael os ceir tân.<br>Mae'r offer diffodd tân, yr arwyddion a'r drysau tân yn cael eu harchwilio a'u cynnal yn rheolaidd. |
| **Systemau Cyfathrebu** | Mae ffonau yn y Ganolfan Ymwelwyr. |
| **Cyfarpar/ Offer yn y Maes Chwarae** | Mae'r offer sydd yn yr ystafell ddosbarth yn eiddo i Ddŵr Cymru ac ni ddylid ei ddefnyddio na'i symud o'r ystafell heb ganiatâd y Cydgysylltydd Addysg.<br>Nid yw plant yn cael dringo coed na dringo i ben byrddau picnic nac unrhyw offer awyr-agored arall ar dir y Ganolfan Addysg. |
| **Cyfleusterau ar gyfer Ymwelwyr ag Anghenion Arbennig** | Mae'r ganolfan yn ceisio diwallu anghenion ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig. Mae'n rhaid i staff sy'n ymweld sicrhau, wrth drefnu'r ymweliad, bod trefniadau addas wedi'u gwneud i oruchwylio a helpu plant sydd ag anghenion arbennig.<br>Nam Corfforol – Mae modd mynd i'r rhan fwyaf o'r safle mewn cadair olwyn. Gwaetha'r modd, gall fod cyfyngiadau yn y coetir a'r gwaith trin.<br>Nam ar y Golwg – Mae croeso i ddisgyblion sydd â nam ar y golwg eistedd yn nhu blaen y dosbarth pan ddefnyddir y bwrdd gwyn<br>Nam ar y Clyw – Mae croeso i ddisgyblion sydd â nam ar y clyw eistedd yn y tu blaen<br>Gwyddom y gall fod angen eglurhad ar ysgolion o'r ddarpariaeth benodol sydd ar gael wrth iddynt wneud asesiad risg manwl ar gyfer rhai disgyblion. Os felly, mae croeso i ysgolion gysylltu â ni ar 01490 420208. |

| | |
|---|---|
| **Gofynion Meddygol** | Dylai'r ysgol neu arweinydd y grŵp gysylltu â'r Cydgysylltydd Addysg os byddant yn gwybod bod gan ryw ddisgybl gyflwr meddygol/anghenion penodol neu ddifrifol. Bydd angen trafod trefniadau argyfwng. Dylid sôn am gyflyrau fel hyn wrth gadarnhau'r trefniadau.<br>Os yw'n ddiogel gwneud hynny, byddwn yn ceisio cynnwys disgyblion sydd â chyflyrau meddygol penodol neu ddifrifol yn ein gweithgareddau. |
| **Mynd ar Goll** | Oherwydd gosodiad a maint y safle, mae'n rhaid i'r grŵp aros gyda'i gilydd ac i'r aelod o'r staff sy'n gyfrifol amdanynt gyfri pennau yn rheolaidd. |
| **Aelod ar Goll** | Rhowch wybod i'r Cydgysylltydd Addysg ar unwaith os bydd aelod o'ch parti ar goll. |
| **Cyfleusterau lles** | Mae toiledau (a chyfleusterau i bobl anabl) wrth y dderbynfa yn y Ganolfan. Nid ar gyfer grwpiau addysg yn unig y mae'r rhain – gall sefydliadau eraill ddefnyddio'r ystafell ddosbarth hefyd. Mae'r toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd gan staff glanhau ar gontract ar ôl oriau ymweld.<br>Nid oes toiledau yn y safleoedd y byddwch yn ymweld â nhw ar gyfer gweithgareddau e.e. y gwaith trin, y pwll a'r coetir. |
| **Cyfleusterau Golchi Dwylo** | Gofynnir i'r grŵp olchi eu dwylo ar ôl dod yn ôl o'r gwahanol weithgareddau. Mae sebon gwrth-facteria ar gael. Rhaid gwneud hyn **cyn** i'r grŵp fwyta neu yfed. |
| **Trefniadau Amser Cinio** | Mae dŵr yfed i'w gael yn yr ystafell ddosbarth trwy'r dydd.<br>Mae lle ar gael i'r plant fwyta'u pecyn bwyd yn yr awyr agored. Os yw'r tywydd yn ddrwg iawn, gellir bwyta cinio yn yr ystafell ddosbarth os yw ar gael. |
| **Amddiffyn rhag Tywydd Drwg/Haul** | Dylid dweud wrth y plant y gall fod angen eli haul i'w hamddiffyn ar rai dyddiau tra byddant yn y Ganolfan Addysg. Os bydd y tywydd yn ddrwg, caiff y plant fynd i'r ystafell ddosbarth i fwyta os yw ar gael. |
| **Dillad** | Dylai'r plant a'r staff ddod â dillad addas ar gyfer yr awyr agored a thywydd gwlyb, yn cynnwys siaced sy'n dal dŵr a Welingtons os oes modd. Mae'n rhaid cael esgidiau addas. Gellir gwisgo esgidiau â gwadnau da nad ydynt yn llithro os nad oes Welingtons ar gael. Nid yw fflip fflops na sandalau'n dderbyniol ac ni fydd ymwelwyr sy'n gwisgo'r rhain yn cael cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau. |
| **Peryglon Traffig** | Mewn rhai rhannau o'r safle, mae gofyn i oedolion a phlant wisgo siacedi amlwg iawn. Mae'n rhaid gwisgo'r rhain. Ein Cydgysylltydd Addysg fydd yn eu darparu. |
| **Bysiau** | Mae maes parcio bysus ymwelwyr ger gatiau'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff.<br>Dylai grwpiau sy'n ymweld aros ar y bws hyd nes i'r Cydgysylltydd Addysg gyrraedd. Wrth gyrraedd, bydd y grŵp yn cael ei dywys i |

| | |
|---|---|
| | fan diogel fel y gall y bws barcio neu adael.<br>Mae croeso i'r bws a'r gyrrwr aros ar y safle ond mae'n rhaid i ni fynnu nad yw'r gyrrwr yn cerdded o gwmpas y safle ac eithrio i'r toiled ac ati yn yr ystafell ddosbarth. |
| **Baw Anifeiliaid mewn Mannau Cyhoeddus** | Nid oes hawl dod â chŵn nac anifeiliaid anwes eraill i'r safle.<br>Mae croeso i gŵn cymorth. Soniwch wrth y Cydgysylltydd Addysg wrth drefnu'r ymweliad. |
| **Ffliw Adar / Adar Gwyllt** | Mae adar gwyllt yn cludo sawl afiechyd y gall pobl eu dal. Ni ddylai unrhyw aelod o'r grŵp gydio mewn aderyn marw o gwbl. Os gwelwch aderyn marw ar y safle, dywedwch wrth y Cydgysylltydd Addysg a bydd yn trefnu i gael gwared â'r aderyn gan ddilyn canllawiau DEFRA. |
| **Gweithgareddau yn y Pwll a'r Coetir** | Rhaid i ymwelwyr olchi eu dwylo ar ôl cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Mae menyg tafladwy ar gael ac mae'n rhaid eu gwisgo os oes gennych friw neu sgriffiad ar eich dwylo, rhag iddo gael ei heintio.<br>Os bydd y tywydd yn wlyb iawn, gellir cynnig gweithgareddau eraill yn eu lle. |
| **Planhigion a ffyngau niweidiol/ gwenwynig** | Ar rai adegau o'r flwyddyn efallai y bydd aeron gwenwynig ar goed a llwyni ar y safle. Dylai'r ysgolion ddweud wrth y plant i gyd am beidio â phigo na bwyta aeron nac unrhyw rannau eraill o blanhigion.<br>Mae rhai ffyngau (madarch a chaws llyffant) yn tyfu weithiau hefyd. Dylai'r ysgolion ddweud wrth y plant i gyd am beidio â phigo na bwyta ffyngau. |
| **Map o'r Safle** | Mae map ar gael sy'n dangos y llwybrau lle caniateir i bobl gerdded, llwybrau cerbydau a mannau parcio bysus.<br>Os hoffech gopi o hwn, gofynnwch i'r Cydgysylltydd Addysg cyn dod. |
| **Ffotograffau** | Efallai y byddwn yn tynnu lluniau yn ystod eich ymweliad. Gallwn ddefnyddio'r rhain mewn cyhoeddiadau mewnol, ar ein gwefan neu ar gyfer datganiadau i'r wasg. Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod ganddi ganiatâd rhieni i gyhoeddi llun unrhyw blentyn sy'n ymddangos yn y lluniau. Bydd y staff sy'n ymweld yn cael cyfle i dynnu unrhyw blentyn nad oes caniatâd i dynnu ei lun. |

| Y Mannau Mwyaf Peryglus | |
|---|---|
| **Diogelwch Dŵr** | Mae un pwll mawr ar y safle a nifer o danciau dŵr dwfn yn y gwaith trin.<br><br>Mae'r ganolfan ger yr argae a'r gronfa ddŵr. Mae'r argae'n 27 metr o uchder ac mae'r gronfa yn 5km o hyd a dros 30m o ddyfnder. Mae diogelwch ger y dŵr yn eithriadol o bwysig a sonnir am ymddygiad y disgyblion ger y dŵr cyn dechrau'r gweithgareddau.<br><br>Rydym yn cymryd y camau a ganlyn mewn perthynas â pheryglon cyrsiau dŵr:<br>• Mae gennym offer diogelwch ar ffurf cylchoedd achub wrth y pwll a'r tanciau dŵr dwfn ac maent yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. |
| **Alergeddau** | Mae ein hystafell ddosbarth mewn ardal gadwraeth a cheir yno lawer o blanhigion a choed a allai achosi adwaith alergaidd. Mae gennym gyfleusterau bwydo adar gwyllt ac rydym yn cadw cnau a hadau ar y safle. Cyfrifoldeb yr ysgol yw dweud wrth y Cydgysylltydd Addysg am unrhyw alergedd cyn eich ymweliad. Gofynnir i chi ddarllen yr adran am Anghenion Meddygol |
| **Gwaith Trin Dŵr Alwen** | Mae Gwaith Trin Dŵr Alwen yn cyflenwi dŵr glân i tua 70,000 o dai a busnesau.<br>Os oes unrhyw ymwelydd, yn cynnwys aelodau o'r staff, oedolion sy'n helpu neu ddisgyblion, wedi bod yn dioddef o chwydu a dolur rhydd yn ystod y 48 awr cyn yr ymweliad, NI fydd yn cael cymryd rhan yn y daith o gwmpas y gwaith |

| Gwybodaeth Berthnasol Arall | |
|---|---|
| Mae'r asesiadau risg penodol ar gyfer y gweithgareddau a ddewisir gan y grŵp yn rhy fanwl i'w cynnwys yn y ddogfen hon ond gallwn eu hanfon atoch trwy'r post neu'r e-bost os dymunwch. | |
| **Llofnodwyd gan** | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw** | Bethan Copeland |
| **Swydd** | Cydgysylltydd Addysg |
| **Rhif ffôn** | 01490 420208 |
| **Cyfeiriad e-bost** | Bethan.Copeland@dwrcymru.com |
| **Cydgysylltydd Iechyd a Diogelwch** | Katie Broad |
| **Rhif ffôn** | 01443 492720 |
| **Cyfeiriad E-bost** | Katie.Broad@dwrcymru.com |